Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth, 12fed o Fedi am 7:30 y.h

Yn Bresennol
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Sara Williams (SW), John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ)

1. **Ymddiheuriadau –** Sianelen Pleming a'r Cyng. Aled Jones.

2. **Datgan Diddordeb –** Lisbeth James eitem 9 islaw – Ysgrifenydd y Cwmni (Hafod Ceiri)

3. **Diweddariadau asedau –** Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor.

4. **Hysbysiadau y Cadeirydd –** Croesawyd pawb a oedd yn bresennol.

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd JO fod cofnodion y 13eg o Fehefin, 2017 yn gywir. Eiliodd SW ac fe'u mabwysiadwyd.

5.2 Materion yn codi –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl** - Adroddod y Clerc iddo yrru lluniau ar ôl glaw o'r safle mewn golwg i Dewi Owen eu rhoi i Swyddog Draenio y Cyngor. Dilynwyd y mater i fyny ymhellach gan nad oedd ymateb i law. *Gofynwyd i'r Clerc gysylltu trwy lythyr.*

5.2.2 **Llidiart y Llwybr Cyhoeddus –** Nododd y Clerc na dderbynwyd ymateb gan y Cyngor Sir eto. *Y Clerc i gysylltu trwy lythyr.*

6. **Canolfan Llithfaen**

6.1 **Maes Parcio Canolfan Llithfaen –** Adroddwyd fod y Cyngor Sir wrthi'n gloywi'r trefniadau presennol o ran y maes parcio.

6.2 **Prydles ac Is-brydles ddrafft newydd –** Nododd y Clerc iddo sicrhau fod copi o'r ddwy wedi'u cylchredeg i holl Aelodau'r Cyngor Cymuned o flaenllaw.

6.3 **Cyngor Cyfreithiol Annibynnol o ran y Brydles a'r Is-brydles -** Adroddodd y Clerc iddo roi cynnig i dri cwmni o Gyfreithwyr i gyflwyno prisiau am roi Cyngor Cyfreithiol annibynnol i'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Brydles/Is Brydles. Parry Davies Clwyd-Jones, Pwllheli yn unig a ymatebodd gan roi y prisiau canlynol:
Adolygu'r Brydles ddrafft a'i chofrestru - £495 + TAW (a chostau'r gofretrfa dir)
Adolygu'r Brydles ddrafft yn unig – Amcangyfrifwyd y byddai'r gost rhwng £280 a £420.00 + TAW. Byddai ymdrin â'r Is-brydles ddrafft ar ran y Cyngor Cymuned yn ddibynnol ar hyd yr is-brydles a'r angen i'w chofretru ac ati – Tybia na fydda'r costau mewn perthynas a'r is-brydles yn fwy na £280 + TAW.

Byddai angen i Bwyllgor y Ganolfan gael cynrychiolaeth Gyfreithiol annibynnol. Eu cyfrifoldeb hwy fyddai talu am y gynrychiolaeth honno.
Nododd y Clerc y gallai'r Cyngor ystyried dyrannu'r arian dros ben (£899) o'r cyfanswm a roddwyd ar un ochr i gyfro costau etholiad mis Mai, 2017 ar gyfer y costau cyfreithiol hyn.
Cynigiodd JO fod yn Cyngor yn derbyn cynnig Parry Davies Clwyd-Jones ac eiliodd GJ. Cytunodd pawb.
Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyfreithwyr i sefydlu proses.
Yr Aelodau i edrych yn fanwl ar y Brydles ac Is-brydles a chodi unrhyw fater sydd angen eglurhad yn y cyfarfod nesaf.

7. **Mynwent Pistyll –** Mae dau fwlch yn y wal o gwmpas rhan y Cyngor o'r fynwent. Nid yw'r wal o yma wedi'i chynnwys yn y Polisi o gwbwl ar hyn o bryd. Nododd y Clerc iddo ddyrannu amcangyfrif o £400 ar gyfer atgyweiriadau i'r fynwent yn rhagolygon 2017/18. Cynigiodd JO fod angen eu hatgyweirio ac eiliodd GJ. Roedd pawb yn gytün. Cyflwynwyd tri phris ar gyfer y gwaith yma. Cynigiodd GJ fod y Cyngor yn derbyn y pris isaf o £280.00 gan Osian Williams. Eiliodd WJ. Roedd pawb yn cytuno. *Y Clerc i ddarparu ffurflen archeb berthnasol ar gyfer Osian Williams.*
Penderfynwyd pennu ar swm perhnasol ar gyfer yswirio'r wal ar ôl iddi gael ei hatgyweirio. *Y Clerc i godi'r mater eto ar ôl i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau.*
Nodwyd fod bwlch mawr yn y wal nad yw dan ofal y Cyngor Cymuned. *Gofynnwyd i'r Clerc lythyru a'r rhai sy'n gyfrifol amdani gan ofyn iddynt ei hatgyweirio.*

8. **Gwefan y Cyngor-** Cynigiodd GJ fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Wefan fel ac y mae. Eiliodd SW. Roedd pawb yn gytün.
Penderfynwyd gyrru llythyr o ddiolch i'r person a ddatblygodd y wefan. *Y Clerc i weithredu.*

9. **Ceisiadau Cynllunio –**

9.1 Capel Isa, Llithfaen Cais Rhif: C17/0875/43/LL: Trosi ac ymestyn capel yn ganolfan aml-ddefnydd, yn cynnwys dau uned gwyliau, unedau gwaith a chaffi ynghyd a chreu maes parcio newydd: Penderfynodd y Cyngor eu bod yn gefnogol i'r cais. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

9.2 Capel Isa, Llithfaen Cais Rhif C17/0876/43/CR: Addasiadau mewnol i drosi capel yn ganolfan aml-ddefnydd ynghyd a estyniad cefn: : Penderfynodd y Cyngor eu bod yn gefnogol i'r cais. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir*.
Ni chymerodd Lisbeth James ran ym mhenderfyniadau 9.1 a 9.2. Arweinwyd y drafodaeth honno gan Griffith Jones, yr Is-gadeirydd. (Gweler eitem 2. uchod)

10. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw –**

10.1 Wal y Nant – Trafodwyd y mater yma eisioes.

10.2 Maes Parcio ar y Tir Comin ar y ffordd i Nantgwrtheyrn – Ers y cyfarfod diwethaf bu Aelodau o'r Cyngor yn ymweld a'r safle. Bydd y Cyngor yn ystyried casgliadau'r ymweliadau ymhellach yn y cyfarfod nesaf. *Y Clerc i sicrhau fod y mater yn codi yn y cyfarfod nesaf.*
Yn ogystal, gofynwyd i'r Clerc i ofyn Cyngor Sir beth yw'r drefn ac amlder gwagio'r biniau yn y maes parcio.

10.3 **Parcio yn Llithfaen –** Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro.

10.4 **Y Clerc –** Cynigiodd SW nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i'r Clerc ymgymryd â rôl ychwanegol o Glercio i Gyngor Cymuned Betws Garmon. Eiliodd GJ. Cytunodd pawb.

11. **Gohebiaeth -**

11.1 Toiledau Cyhoeddus Llithfaen - Derbynwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir y bydd y ddarpariaeth o doiledau Cyhoeddus yn Llithfaen yn dod i ben ar 1 Hydref, 2017.

11.2 Ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol – Tynwyd sylw'r Aelodau at yr ymgynghoriad hwn.

11.3 Grant 'Cymraeg 2050' – Tynwyd sylw'r Cyngor at y ffynhonnell ariannu yma.

11.4 Ariannu i gyflwyno trefniadau cyfleusterol ar y cyd - Tynwyd sylw'r Cyngor at y ffynhonnell hon.

11.5 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

12. **Cyllid**

12.1 Cadarnhau Cynlluniau Cronfeydd wrth gefn - *Y Clerc i gyflwyno adroddiad i'w ystyried yng nghyfarfod mis Hydref.*

12.2 Archwiliwr Mewnol - Nododd y Clerc iddo siarad gyda Chyngor Gwynedd ynglyn ac amcanbris am ymgymryd ac archwilio mewnol y Cyngor am 2017/18. Roedd eu hamcanbris am ymgymryd a'r gwaith yn llai na £100. Gan hynny mae un pris yn ddigonol i fodloni gofynion Rheolau Ariannol Y Cyngor Cymuned. Cynigiodd GJ fod y Cyngor Cymuned penodi Cyfdran Archwilio'r Cyngor Sir i ymgymryd a'r Archwilio Mewnol am 2017/18. Eiliodd WJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu ar y penderfyniad.*

12.3 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

Derbyniadau: Cyfrif Cadw: Llogau £0.21

Taliadau:

E Griffith (Cyflog Clerc)	£160.00	
√ (Costau/treuliau)	£25.00	£185.00

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

A Hughes Jones Dyson a'i gwmni	
(Gweinyddu Cyflog)	£168.00
Swyddfa Archwilio Cymru 2015/16	£265.35
Balans cyfrif cyfredol: £3170.77	
Balans Cyfrif cadw: £2143.96	

12.4 T**aliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

E Griffith (Cyflog Clerc)	£320.00
√ (Costau/treuliau)	£50.00
Cyngor Gwynedd (Costau Etholiad Mai 2017)	£351.00
Osian Williams (Torri Gwair)	£260.00

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 10fed o Hydref am 7:30 y.h.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347